

## Cofion

Gyda thristwch a chwithdod mawr y mae'n rhaid cofnodi marwolaeth tri o'n haelodau yr wythnos hon eto.

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mrs Bet Jones, Sue, Glyn, Robert a Bethan a gweddill y teulu ym marwolaeth Mr Trevor Jones (Cefn Meiriadog), neu Trevor Pengwern i bawb oedd yn ei adnabod. Bu iddo wynebu ei salwch yn ddewr dros y tri mis diwethaf a mawr yw ein diolch am y gofal arbennig a gafodd yn yr ysbyty ac am gynhaliadaeth Duw iddynt fel teulu ar hyd yr amser.
- Yn yr un modd fe gydymdeimlwn â Mr John Streeter, Hesketh, Heather a Miranda a gweddill y teulu ym marwolaeth Mrs Menna Streeter (Henllan). Ni fu'r ddwy flynedd ddiwethaf yn hawdd iddi, ond roedd bob amser yn werthfawrogol o'r gefnogaeth a'r gofal a gafodd. Diolchwn i Dduw amdani.
- A thristwch hefyd yw cofnodi marwolaeth Mr Victor Vaughan (Saron), yntau heb fod yn dda ei iechyd ers peth amser, ond wedi parhau'n siriol trwy'r cyfan. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mrs Dilys Vaughan, Iris, Elinor ac Arwyn a'u teuluoedd yn eu galar a'u hiraeth am un mor annwyl.
- Cydymdeimlwn hefyd ag Eilir Jones (Hiraethog), Karen, Osian a Rhydian ym marwolaeth tad Eilir, sef y Parch John Elwyn Jones, Tywyn ddechrau'r wythnos.

Cyflwynwn yr holl deuluoedd hyn i ofal Duw, gan weddio y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn ystod y dyddiau a'r wythnosau nesaf.

- Estynnwn ein cofion hefyd at y cleifion yn ein plith. Bu'n rhaid i Heulwen Roberts (Henllan) fynd yn ei hôl i Ysbyty Glan Clwyd ac yno hefyd y mae Jean Jones (Peniel) a Susannah Williams (Llansannan). Yr ydym yn eu cofio, ac yn eu hamgylchynu yn ein gweddïau, gan hyderu y byddant yn teimlo'n well yn fuan iawn. Deallwn hefyd fod Trystan Roberts (Cefn Meiriadog) wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, ond ei fod bellach adref o'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan iawn i ti Trystan!
- Ni fu Morfydd Williams (Llanfair) cystal ei hiechyd ers peth amser ac ar hyn o bryd mae'n cael gofal yng Nghartref Southern House, Abergele. Diolchwn am y modd y mae'r plant wedi gofalu amdani ar hyd y misoedd diwethaf, a gweddïwn y bydd yn profi yr un gofal a dedwyddwch yn Southern House.
- Llongyfarchiadau calonnog i Llor (Cefn Berain) a William ar eu priodas ddydd Sadwrn diwethaf a bendithion lu iddynt i'r dyfodol.

## Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22<sup>ain</sup> Ebrill 2012

*Y mae gennyf gryfder at bob gofyn  
trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i.  
(Philippaid 4:13)*

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Tybed faint ohonoch sydd wedi cael eich siomi neu eich gwylltio gan beiriannau diffygiol? Dwi'n siŵr fod llawer un ohonom wedi profi'r rhwystredigaeth honno o fethu cyflawni tasg gan nad yw'r peiriant neu'r cyfarpar y byddwn yn dibynnu arno yn cyflawni'r gwaith yr oeddech yn gobeithio y byddai yn ei wneud! Yr wythnos hon, dyna'n union yr oeddwn innau yn ei dybio am y peiriant torri gwair y bu fy rhieni mor garedig â'i fenthyg i mi. Penderfynais ei bod yn bryd torri'r gwair o gwmpas Heulfryn gan fod hwnnw wedi tyfu'n gyflym ac yn edrych braidd yn flêr. Ac oherwydd bod y gwair mor drwchus, meddyliais yn siŵr na fyddai'r peiriant yn gallu dygymod â'r hyn yr oeddwn am iddo'i wneud. Ond serch hynny, wedi ychydig oriau o dychan a chwysu, cefais fy siomi ar yr ochr orau!

Gall rhywbeth go debyg ddigwydd i ninnau hefyd wrth i ni feddwl am ein bywyd fel Cristnogion, wynebu sialensiau bywyd a chyflawni'r gofynion sydd arnom i fyw fel Iesu. Wrth i ni ddod wyneb yn wyneb â rhyw dasgau arbennig, neu wrth orfod wynebu sefyllfaoedd anodd, gallwn feddwl nad yw'r adnoddau priodol gennym i gario ymlaen. Ond, fel yr atgoffodd Hywel Meredydd nifer ohonom yn Llanw, mae Gair Duw yn ein calonogi'n fawr, yn rhannol trwy gadarnhau'r hyn yr ydym yn ei ofni! Yn sicr, nid yw'r adnoddau gennym i gario ymlaen yn ein nerth a'n gallu ein hunain, ond mae'r holl ddarpariaeth a'r adnoddau sydd ei angen ar y Cristion i'w cael yn helaeth trwy ras Duw a nerth yr Ysbryd Glân. Dyna fu neges fawr Paul i galonogi ac annog Timotheus ifanc gan ddweud wrtho y byddai'r Ysbryd Glân yn rhoi nerth, cariad a hunanddisgyblaeth iddo. (2 Tim. 1:7) Mae'r addewid hon yn anogaeth i bawb sydd â'i ffydd yng Nghrist a gallwn lynu wrthi oherwydd bod Duw wedi'n hachub "a'n galw â galwedigaeth sanctaidd, nid ar sail ein gweithredoedd ond yn unol â'i arfaeth ei hun a'i ras, y gras a roddwyd inni yng Nghrist Iesu cyn dechrau'r oesoedd, ond a amlygwyd yn awr drwy ymddangosiad ein Gwarddwr, Crist Iesu. Oherwydd y mae ef wedi dirymu marwolaeth, a dod â bywyd ac anfarwoldeb i'r golau trwy'r Efengyl." (2 Tim. 1:9-10).

Beth am bwysu ar allu a darpariaeth Crist i ni, a bod yn barod i fentro a dibynnu arno i ninnau hefyd synnu a rhyfeddu cymaint y gellir ei wneud a'i ddioddef trwyddo Ef, ac er ei fwyn Ef?

*Rhodri*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mercher • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Gan ei bod yn bumed Sul, ni fydd Oedfa i'r Fro yn Llansannan heno.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor yn arwain oedfa am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Hugh Pritchard yn arwain oedfa ym Mheniel am 3.15. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 gyda'r plant yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.30 gyda chinio i ddilyn i godi arian tuag at y Sasiwn Genhadol. Bydd y Parch Hugh Pritchard yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Iau Bydd Cymdeithas Cefn Berain yn cynnal helpa drysor ac yn cychwyn yn brydlon o Neuadd Llanefydd am 6.00. Bydd swper i ddilyn. Enwau i Meryl erbyn nos Lun, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.

### I ddod

- **Sasiwn Genhadol y Chwiorydd** yn cyfarfod yng Nghapel Heol China, Llanidloes, dydd Mercher, Mai 2il.
- **Penwythnos 'GWERTHFAWR'** i ferched oed uwchradd yng Ngholeg y Bala, Mai 4ydd-6ed. Mwy o fanylion trwy ffonio'r Coleg: 01678 520565.
- **Darlith ar William Salesbury - ei gyfnod a'i gyfraniad"** yn Llansannan, nos Iau Dyrchafael, sef Mai 17eg am 7.30 gyda Dr Iwan Rhys Edgar, Pwllheli yn darlithio. Croeso cynnes i bawb.
- **Noson ddwyieithog i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr plant a ieuenctid a gweithwyr ysgolion** nos Fercher, Mai 23ain yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug am 7.00. Am fwy o fanylion, ffoniwch Gwyn Rhydderch ar 07979 860537.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau